Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Risgiau o Erydu Arfordirol a Llifogydd Llanw yng Nghymru

Mai 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol
www.cynulliadcymru.org

Mae rhagor o gopïau print o'r ddogfen hon ar gael drwy gysylltu â'r:

Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8149
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: culture.committee@wales.gsi.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Risgiau o Erydu Arfordirol a Llifogydd Llanw yng Nghymru

Mai 2010

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sicrhau bod gwariant Llywodraeth Cymru'n cael ei archwilio'n briodol ac yn drylwyr, a bod yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn glynu wrth y safonau uchaf posibl wrth reoli eu materion ariannol. Mae'n gwneud hyn er mwyn i bobl Cymru allu teimlo'n hyderus bod eu harian yn cael ei wario'n synhwyrol ac yn dda.

Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007 fel un o bwyllgorau'r Cynulliad. Mae ei bwerau wedi'u gosod allan yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a Rheol Sefydlog 13 yn benodol. Mae'r rhain ar gael yn www.cynulliadcymru.org

Aelodau'r Pwyllgor

Aelod Pwyllgor	*Plaid*	*Etholaeth neu Ranbarth*
Jonathan Morgan (Cadeirydd)	Plaid Geidwadol Cymru	Gogledd Caerdydd
Lorraine Barrett	Llafur	De Caerdydd a Phenarth
Jeff Cuthbert	Llafur	Caerffili
Alun Davies	Llafur	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Irene James	Llafur	Islwyn
Bethan Jenkins	Plaid Cymru	Gorllewin De Cymru
Sandy Mewies	Llafur	Delyn
Nick Ramsay	Plaid Geidwadol Cymru	Mynwy
Jenny Randerson	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Canol Caerdydd
Janet Ryder	Plaid Cymru	Gogledd Cymru

Contents

Rhagair y Cadeirydd **5**

Argymhellion y Pwyllgor **7**

1. Nid yw'r dull presennol o reoli erydu arfordirol a'r risg o'r llanw yn gynaliadwy, yn arbennig mewn dyfodol lle mae'n debygol y bydd y risgiau i gymunedau ac asedau yn cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd **9**

2. Mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol bod angen newid ei dull o weithredu, ond mae wedi bod yn araf yn rhoi'r newid hwn ar waith. Hyd yma, nid yw wedi bod yn effeithiol wrth roi gwybod i gymunedau arfordirol am oblygiadau'r newid, nac wedi arwain rhanddeiliaid allweddol yn strategol drwy symud ymlaen â dull o weithio sy'n fwy seiliedig ar risg. **12**

Mae consensws bod Llywodraeth Cymru'n symud i'r cyfeiriad cywir, ond mae gan yr asiantaethau allweddol ddiffyg gwybodaeth fanwl, sydd ei hangen i gyflawni'r newid hwn ar lawr gwlad. 12

Mae angen gwell cyfathrebu â dinasyddion a chymunedau arfordirol 14

Mae angen mabwysiadu dull newydd o weithredu ar frys 16

Mae'r dull presennol o asesu cynlluniau yn gymhleth, nid yw'n dryloyw a rhaid iddo ystyried dewisiadau amgen, sy'n seiliedig ar risg, yn gynharach yn y broses 17

Ceir gormod o ganolbwyntio ar brosiectau cyfalaf ac mae angen mwy o waith i reoli'r cydbwysedd rhwng arian cyfalaf a refeniw ac adnoddau 18

Mae gallu Llywodraeth Cymru i weithredu dull newydd wedi cael ei amau 20

3. Mae'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru, gyda'i phartneriaid, ddwysáu ei dull o reoli erydu arfordirol a llifogydd llanw, ac ailfywiogi ei weithredoedd ag ymdeimlad o frys **21**

4. Argymhellion **23**

Tystion **25**

Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig **26**

Rhagair y Cadeirydd

Mae erydu arfordirol a llifogydd llanw yn broblem sydd eisoes yn wynebu sawl cymuned ar hyd arfordir Cymru. Yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar y pwnc hwn, gwnaethpwyd yn glir nad yw'r dull presennol o ymdrin â'r risgiau y mae hyn yn eu peri i gymunedau ac asedau yn gynaliadwy, a bod angen gweithredu ar frys i roi'r ddadl dros symud i ffwrdd o ddull o weithredu sy'n seiliedig ar amddiffyn, tuag at ddull o reoli erydu arfordirol a llifogydd llanw sy'n fwy arloesol ac sy'n seiliedig ar risg.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod mai dyma'r peth cywir i'w wneud, a lansiodd ei *Rhaglen Dulliau Newydd* yn 2007 i reoli'r newid hwn yn ei dull o weithio. Yn y tair blynedd ers i'r rhaglen hon gael ei lansio, ychydig iawn o gynnydd a wnaed ganddo. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym mai'r rheswm am hyn yw y cymerodd gwaith arall flaenoriaeth dros y rhaglen hon, ac y daeth elfennau o'r Rhaglen Dulliau Newydd yn rhan o ffrydiau gwaith eraill. Fodd bynnag, gwelsom fod diffyg eglurder ynghylch dull Llywodraeth Cymru o weithio, pa un ai a ddaw hynny drwy law'r Rhaglen Dulliau Newydd ai peidio, a bod hynny'n golygu nad oedd gan rhanddeiliaid allweddol, fel Asiantaeth yr Amgylchedd a rhai awdurdodau lleol, syniad clir am ddull Llywodraeth Cymru o weithio, a sut y dylid ei roi ar waith.

Gwelsom fod angen i Lywodraeth Cymru ddechrau dweud wrth y cymunedau yr effeithir arnynt am y gwirionedd anodd ynglŷn â mabwysiadu dull o reoli erydu arfordirol a llifogydd llanw sy'n seiliedig ar risg, ynghyd â'r cyfleodd a ddaw wrth wneud hynny. Mae angen gweithredu ar frys er mwyn i ddinasyddion gael digon o amser i gynllunio ar gyfer yr hyn a allai fod yn newid mawr i'w ffordd o fyw. I fod yn hollol blaen, bydd rhaid i rai cymunedau, sy'n cael eu diogelu gan amddiffynfeydd arfordirol ar hyn bryd, encilio yn y dyfodol, gan adael i eiddo a thir fynd i'r môr. Mae'n bosibl y gallwn fod yn y sefyllfa hon mewn degau o flynyddoedd, yn hytrach na channoedd.

Rhaid i Lywodraeth Cymru arwain yn gryf ar y mater hwn, drwy amlinellu'r hyn sydd yn rhaid ei wneud, gan bwy, erbyn pryd, a'r costau sy'n gysylltiedig â hyn. Mae'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr yn rhoi fframwaith ac ysgogiad newydd i Lywodraeth Cymru roi hwn ar waith. Ni all hyn ddigwydd oni bai fod digon o adnoddau ar gael i wneud y gwaith hwn.

Yn ddiweddar, gwelodd Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru fod angen gwell cysylltiad â chymunedau sy'n cael eu heffeithio gan lifogydd yng

Nghymru, ac mae hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i weithredu'n gyflymach wrth fynd i'r afael â'r risgiau o lifogydd[1]. Mae'r ddwy thema hyn hefyd yn amlwg iawn yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ac yn y dystiolaeth a gawsom yn ystod yr ymchwiliad. Credwn fod gwaith y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar lifogydd, pan gaiff ei ystyried ochr yn ochr â'r adroddiad hwn a gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, yn anfon neges glir a chadarn at Lywodraeth Cymru - rhaid gwella cyfathrebu a rhaid i'r Llywodraeth weithio ar frys i fynd i'r afael â'r risgiau o lifogydd.

Bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, fel ceidwad pwrs y wlad, yn gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru i fonitro cynnydd yn y maes, i sicrhau bod trethdalwyr Cymru'n cael gwerth am arian, wrth i Lywodraeth Cymru a'i hasiantaethau partner ymateb i'r her o reoli'r risgiau o erydu arfordirol a llifogydd llanw yn y dyfodol.

[1] Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Ymchwiliad i Lifogydd yng Nghymru,* Chwefror 2010

Argymhellion y Pwyllgor

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n rhoi ymateb manwl i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar y risgiau o erydu arfordirol a llifogydd llanw yng Nghymru.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n amlinellu'n glir yr hyn a olygir i randdeiliaid gan 'ddull sy'n seiliedig ar risg', a'r camau sy'n cael eu cymryd ganddi i gyflawni hyn.

Argymhelliad 3. Wrth gyflawni argymhelliad 2, dylai Llywodraeth Cymru hefyd:

- wneud asesiad wedi'i gymhwyso o ba mor fforddiadwy y bydd gweithredu'r dull hwn sy'n seiliedig ar risg;
- sicrhau bod adnoddau digonol ar gael, yn cynnwys adnoddau ariannol a thechnegol a'r gallu i reoli prosiectau;
- yn ogystal ag ystyried ei hadnoddau mewnol ei hun, dylai ystyried gwneud y mwyaf o'r arbenigedd sydd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ac asiantaethau eraill fel y byrddau draenio mewnol; ac
- arwain mewn modd cyfeiriol sy'n sicrhau momentwm y newid a bod atebion hirdymor a chynaliadwy yn cael eu creu

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n datgan a yw'r rhaglen Dulliau Newydd yn dal i fodoli, a sut y mae'r amcanion a osodwyd o dan y rhaglen hon yn cyd-fynd â datblygiadau dilynol e.e. yr ymateb i adolygiad Pitt.

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n llunio rhaglen i roi gwybodaeth am oblygiadau cyffredinol y newid mewn dull o weithio, a'i rhoi ar waith fesul cam. Wrth wneud hyn gall dinasyddion a chymunedau sydd mewn perygl, ar hyn o bryd neu yn y dyfodol, ddechrau ystyried beth, mewn gwirionedd, fydd effaith symud i ffwrdd o'r dull traddodiadol o weithio sy'n seiliedig ar amddiffyn. Dylai'r rhaglen hon gael ei rhoi ar waith ar draws Cymru, ac ni ddylai gael ei chyfyngu i gynlluniau penodol i atal erydu arfordirol a llifogydd llanw.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n datblygu methodoleg dryloyw ar gyfer asesu a blaenoriaethu cynlluniau diogelu'r arfordir fel y gall dinasyddion a chymunedau ddeall yn glir y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud. Dylai'r fethodoleg hon sicrhau bod dewisiadau sy'n seiliedig ar risg ac sy'n wahanol i gynlluniau amddiffyn traddodiadol yn cael eu hystyried ochr yn ochr â chynigion sy'n seiliedig ar ddulliau traddodiadol. Dylid ystyried dewsiadau amgen hyd yn oed pan fo dulliau traddodiadol yn fforddiadwy.

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n amlinellu ei hamserlen ar gyfer cyhoeddi strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli'r risgiau o lifogydd ac erydu arfordirol, o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, a'r camau a gymerwyd eisoes i baratoi ar gyfer cyhoeddi'r strategaeth hon.

1. Nid yw'r dull presennol o reoli erydu arfordirol a'r risg o'r llanw yn gynaliadwy, yn arbennig mewn dyfodol lle mae'n debygol y bydd y risgiau i gymunedau ac asedau yn cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd

1. Dangosodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, *Risgiau o Erydu Arfordirol a Llifogydd Llanw yng Nghymru* [2] na all y trefniadau presennol ar gyfer rheoli erydu arfordirol a llifogydd llanw *"ymdopi â newidiadau amgylcheddol"*[3]. Mae'r dull presennol o weithredu yn parhau i ganolbwyntio ar seilwaith sefydlog e.e. buddsoddi mewn amddiffynfeydd cadarn a gynlluniwyd er mwyn dal dŵr llifogydd yn ôl. Mae'r amddiffynfeydd cadarn hyn yn gostus i'w hadeiladu ac i'w cynnal, ac maent yn para am gyfnod cyfyngedig. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod angen symud tuag at ddull o weithredu sy'n fwy seiliedig ar risg ac yn defnyddio ystod o dechnegau i reoli erydu arfordirol, yn arbennig yn wyneb y risgiau cynyddol a ddaw o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.[4]

2. Amcangyfrifir mai £15 miliwn y flwyddyn yw'r gost o gynnal amddiffynfeydd arfordirol presennol[5]. Mae amcangyfrifon wedi dangos y bydd y gost o ganlyniad i ddifrod gan lifogydd yn dyblu o leiaf, ac y gallai gynyddu gymaint ag ugain gwaith yn ystod yr 80 mlynedd nesaf[6]. Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n amcangyfrif y gallai cost y difrod a achosir gan lifogydd gynyddu i £1.4 biliwn y flwyddyn yng Nghymru yn ystod y ganrif nesaf[7].

3. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol enghreifftiau o atebion sy'n seiliedig ar risg, yn cynnwys atebion sydd wedi'u cynllunio mewn modd mwy 'ysgafn', fel adfer traethau (lle ychwanegir tywod i godi uchder y traethau), adlinio rheoledig a gwneud eiddo yn fwy cadarn. Gellir defnyddio'r technegau hyn ochr yn ochr â chynlluniau mwy traddodiadol sy'n ymwneud ag amddiffyn er mwyn diogelu'r arfordir mewn modd cynaliadwy yn y tymor hwy.

[2] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Risgiau o Erydu Arfordirol a Llifogydd LLanw yng Nghymru, 29 Hydref 2009
[3] Ibid t.12
[4] Ibid t.14
[5] Ibid t.39
[6] Y Swyddfa dros Wyddoniaeth a Thechnoleg: Foresight Future Flooding: Report on flood and coastal defences, 2004
[7] Cofnod y trafodion 19 Tachwedd 2009 p.59

Atebion peirianyddol arfordirol ysgafn[8]

Eisoes ceir sawl enghraifft o arferion peirianyddol arfordirol 'ysgafnach' yng Nghymru lle y dylunnir cynlluniau i weithio gyda phrosesau naturiol i ddiogelu'r arfordir rhag effeithiau erydu. Mae technegau a ddefnyddir yn cynnwys **adfer traethau** lle y defnyddir tywod i godi'r uchder ac felly gallu naturiol y traethau i amddiffyn.

Mae **adlinio rheoledig** yn opsiwn mwy radical ac yn un nas defnyddir mor aml ond mae'n dechneg amddiffyn arfordirol peirianyddol ysgafn pwysig sydd â'r nod o gyflawni amddiffynfeydd llifogydd cynaliadwy sy'n lleihau effaith tonnau ar amddiffynfeydd arfordirol drwy ail-greu morfeydd wedi eu herydu a chynefinoedd gwastadeddau llaid. Gwneir hyn drwy greu amddiffynfeydd newydd ymhellach i ganol y tir a chaniatáu i'r llinell amddiffyn bresennol dorri ac i'r llanw orlifo dros y tir. Gelwir adlinio rheoledig yn 'gosod yn ôl' a 'chilio rheoledig' hefyd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw enghreifftiau o adlinio rheoledig ar hyd arfordir Cymru, er y disgwylir i hyn gael ei ystyried mewn degawdau i ddod yn sgîl effaith newidiadau yn yr hinsawdd. Gall adlinio rheoledig hefyd arwain at greu gwlyptiroedd rhynglanwol sy'n cefnogi amrywiaeth eang o fywyd. Gall y cynefinoedd newydd a grëir drwy gynlluniau adlinio rheoledig wrthbwyso colled cynefinoedd rhynglanwol naturiol o ganlyniad i bwysau datblygu, llygredd ac adfer tir.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

4. Cafodd canfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol eu cefnogi gan y dystiolaeth a gawsom gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Mewn perthynas â'r angen i newid y dull o reoli'r risgiau o erydu arfordirol a llifogydd llanw, dywedodd Prif Weithredwr Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru:

> "[…] we cannot continue to protect all people under all circumstances from all types of flooding. While we will continue to build flood defences, we need to look at other ways of protecting people from flood risk—for example, by warning, by increasing resilience and by ensuring that development does not take place in areas of high flood risk. It is looking at flood risk in a broader way and accepting that merely building bigger and bigger defences is probably not going to be economic, and, indeed, brings risks in its own right, because if large defences are either overtopped or breached, the dangers can be even greater."[9]

5. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru mai'r ffordd ymlaen wrth ymdrin â'r risgiau cynyddol o lifogydd ac erydu

[8] Mae'r tabl hwn yn ymddangos fel Ffigwr 6 ar dudalen 20 o adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Risgiau o Erydu Arfordirol a Llifogydd LLanw yng Nghymru, 29 Hydref 2009

[9] Cofnod y trafodion, 27 Ionawr 2010 p.7

arfordirol yw symud oddi wrth amddiffyn rhag llifogydd tuag at reoli perygl llifogydd[10].

6. Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig hon hefyd yn rhoi safbwynt arall i ni ar yr effaith y mae newid yn yr hinsawdd yn debygol o'i chael:

> "Communities that live behind good coastal defences that currently protect them against a 1 in 100 chance flood would have protection as low as a one in five chance by the end of the century under a 'business as usual' policy"[11]

7. Daw'r darlun hwn yn gliriach pan gaiff ei gyfosod â'r ffaith nad oes dyletswydd gyfreithiol i adeiladu amddiffynfeydd i ddiogelu pobl ac eiddo; gwelodd yr Archwilydd Cyffredinol nad oes polisïau mewn lle i ddigolledu'r bobl hynny sydd dan fygythiad gan erydu arfordirol a llifogydd llanw. Clywsom fod pobl mewn rhai cymunedau yn dal i gredu y bydd y gwaith o amddiffyn yr arfordir yn parhau'n ddibendraw.[12]

8. Credwn fod y rhan fwyaf o'r asiantaethau sydd ynghlwm â'r gwaith hwn yn derbyn bod angen newid y dull o weithredu. Bydd angen wynebu penderfyniadau anodd wrth wneud y newid hwn. Rydym o'r farn mai'r ffordd gall o barhau yw newid y ffordd yr ydym yn rheoli erydu arfordirol a llifogydd llanw, mewn modd sy'n drefnus ac wedi'i gynllunio. Rydym yn cydnabod ac yn croesawu bod Llywodraeth Cymru'n derbyn hyn[13].

[10] Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Response to the issues raised in the Wales Audit Office Report on Coastal Erosion and tidal Flooding Risks in Wales, 29 Hydref 2009
[11] Ibid t.1
[12] Cofnod y trafodion 27 Ionawr 2010 p.194
[13] Cofnod y trafodion 10 Chwefror 2010 p.20

2. Mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol bod angen newid ei dull o weithredu, ond mae wedi bod yn araf yn rhoi'r newid hwn ar waith. Hyd yma, nid yw wedi bod yn effeithiol wrth roi gwybod i gymunedau arfordirol am oblygiadau'r newid, nac wedi arwain rhanddeiliaid allweddol yn strategol drwy symud ymlaen â dull o weithio sy'n fwy seiliedig ar risg.

Mae consensws bod Llywodraeth Cymru'n symud i'r cyfeiriad cywir, ond mae gan yr asiantaethau allweddol ddiffyg gwybodaeth fanwl, sydd ei hangen i gyflawni'r newid hwn ar lawr gwlad.

9. Atgyfnerthodd y dystiolaeth a gawsom gasgliadau'r Archwilydd Cyffredinol bod bwlch rhwng amcanion polisi lefel uchel Llywodraeth Cymru, sef symud at ddull o reoli llifogydd sy'n fwy seiliedig ar risg, drwy law'r Rhaglen Dulliau Newydd yn y lle cyntaf, a'r modd y gwireddir hyn ar lawr gwlad.

10. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a'r dystiolaeth a gawsom wedi dangos bod angen mwy o arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar yr asiantaethau gweithredu allweddol ar lawr gwlad, a'u bod yn aros am yr arweiniad hwn ers i'r Rhaglen Dulliau Newydd gael ei lansio yn 2007. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym y symudwyd y Rhaglen Dulliau Newydd ymlaen o dan sawl baner wahanol. Er gwaethaf hyn, mae awdurdodau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru'n gweld bod ystyr y newid polisi ar lawr gwlad yn aneglur, o dan pa faner bynnag baner y mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio'i roi.

11. Dywedodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wrthym fod amcanion lefel uwch ynghlwm i'r newid hwn mewn dull o weithredu, ac mai'r hyn sydd ar goll ar hyn o bryd yw'r modd y trosglwyddir hynny i'r gweithredoedd ymarferol ar lawr gwlad.[14]

12. Dywedodd Prif Weithredwr Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru bod angen bod yn fwy eglur ac, yn benodol, bod angen i Lywodraeth Cymru fod yn gwbl glir ynghylch yn union pa amcanion sydd angen eu cyflawni, gan bwy, ac erbyn pryd.[15]

13. Yn ogystal ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, cymerwyd tystiolaeth gan ddau awdurdod lleol sydd wedi'u lleoli ar hyd yr arfordir, a bwrdd draenio mewnol. Disgrifiodd Dean Jackson-Johns, Prif Swyddog Gweithredol Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwastadeddau Gwynllŵg, ei brofiadau o'r Rhaglen Dulliau Newydd:

[14] Cofnod y trafodion 27 Ionawr 2010 p.19
[15] Ibid p.21

> "The document is there, but what there has failed to be—and this is not a criticism—is any action on the ground with local communities, local authorities and the IDBs, to deliver its goals. To summarise, it is a commendable document, but it needs more resources if it is to be implemented."[16]

14. Ategwyd profiad Mr Jackson-Johns gan Geraint Edwards, Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

> "I would like to make the point that there is a consensus of opinion on the New Approaches programme in terms of support. However, I am concerned about translating that programme into work on the ground."[17]

Aeth ymhellach i ddweud bod diffyg sylwedd i'r Rhaglen Dulliau Newydd.

15. Derbyniwyd cyfrifoldeb am yr ychydig ddryswch yn y maes hwn gan Clive Bates, y Swyddog Cyfrifyddu a Chyfarwyddwr Cyffredinol Dyfodol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.[18] Yn ystod ein cyfarfod ar 10 Chwefror 2010, dywedodd:

> "[the NAP] has been subsumed by a new agenda that was established in the wake of the 2007 floods and became the Pitt agenda."[19]

Aeth ymlaen i esbonio hyn:

> "[…] in a sense, we have almost left the New Approaches programme behind without explicitly doing so" whilst again acknowledging that "I do not think that we have explained ourselves that well with regard to the fact that that has happened."[20]

16. Pan roddwyd pwysau ar Mr Bates ynglŷn â statws presennol y Rhaglen Dulliau Newydd, atebodd drwy ddweud:

> "That is a good question. It might be something for us to look at. Perhaps we should say, 'We have moved on, we are responding to Pitt, we have the Flood and Water Management Bill, and we have the EU funding programme and so forth'. What we are doing is absolutely consistent with the objectives of the New Approaches programme. The Minister has made statements in which she has reinforced the fact that what we are doing is consistent with that. I would accept that the clarity on what we are doing

[16] Ibid p.130
[17] Ibid p.155
[18] Cofnod y trafodion 10 Chwefror p.54
[19] Ibid
[20] Ibid p.55

> now and the New Approaches programme is not as sharp as it might be, and that is for us to think about."[21]

Mae statws cyfredol y Rhaglen Dulliau Newydd yn parhau i fod yn aneglur, gan nad yw Mr Bates wedi rhoi amlinelliad pendant o sefyllfa Llywodraeth Cymru.

17. O ran ymchwiliad pellach i'r ffrydiau gwaith a ddisodlodd y Rhaglen Dulliau Newydd, ni allwn ddweud i ba raddau y maent wedi ymgorffori amcanion y Rhaglen Dulliau Newydd o dan faner arall. Yr hyn y gallwn fod yn sicr yn ei gylch, heb ystyried y brandio, yw bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i egluro i'w phartneriaid sy'n cyflenwi gwasanaethau—yn arbennig Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, llywodraeth leol a'r byrddau draenio mewnol—am realiti ymarferol cyflenwi dull o reoli erydu arfordirol a llifogydd llanw sy'n fwy seiliedig ar risg.

18. Ymddengys i ni fod Llywodraeth Cymru'n credu ei bod wedi symud i'r cyfeiriad cyffredinol cywir, yn fras, drwy nifer o gynlluniau gwahanol (nad oedd yr un ohonynt wedi'i anelu'n benodol at erydu arfordirol a llifogydd llanw). Ni chredwn bod hyn yn ddull o weithredu sy'n ddigon trwyadl i ymateb i fater fel erydu arfordirol a llifogydd llanw, yn enwedig pan sefydlwyd rhaglen waith, sef y Rhaglen Dulliau Newydd, i fynd i'r afael ag angen dynodedig. Os penderfynwyd disodli'r Rhaglen Dulliau newydd, dylai hyn fod wedi'i gyfathrebu ochr yn ochr â diwedd y rhaglen honno a sefydlu cyfrwng polisi newydd i symud ymlaen â rhaglen waith sy'n ymwneud â risgiau llifogydd yng Nghymru.

Mae angen gwell cyfathrebu â dinasyddion a chymunedau arfordirol

19. Un maes craidd sy'n peri pryder i ni a'r Archwilydd Cyffredinol yw'r diffyg brys yr ymddengys sydd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r mater hwn, yn arbennig wrth gyfathrebu â'r cymunedau a allai wynebu rhai o'r canlyniadau mwyaf difrifol sydd ynghlwm i'r broses o symud tuag at ddull sy'n seiliedig ar risg.

20. Clywsom gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Llywodraeth Cymru bod y gwaith o gyfathrebu â dinasyddion a chymunedau yn mynd rhagddo, a bod mwy o waith yn cael ei wneud i benderfynu ar y ffordd orau o gyfleu'r risg i gymunedau arfordirol ac i ddeall mwy am y risgiau y mae'r cymunedau hyn yn eu hwynebu. Mae Llywodraeth Cymru'n aros i gwblhau astudiaeth o'r risgiau manwl sy'n wynebu cymunedau arfordirol yng Nghymru cyn cynnal ymchwiliad mwy cyflawn i'r goblygiadau ar gyfer y cymunedau hynny.

21. Nid yw canfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol, na phrofiadau'r tystion y clywsom ganddynt, yn cyd-fynd â'r safbwynt hwn. Er ein bod yn derbyn na ellir

[21] Ibid p.126

cyfathrebu'n fanwl heb ddeall y risgiau y mae pob cymuned yn eu hwynebu, gellir dechrau rhoi gwybodaeth gyffredinol am realiti symud tuag at ddull o weithredu sy'n seiliedig ar risg.

22. Wrth ymateb i'n cwestiynau, rhoddodd Mr Jackson-Johns sylwadau ar y lefel o gyfathrebu sydd wedi bod â'r cymunedau y mae'n eu cynrychioli yn ne-ddwyrain Cymru:

> "It is happening, but not to the extent that we feel that it should be. There should be community meetings, and meetings with local villagers. That sort of thing should be happening. We are all professional people here, and we know what we are on about, but a lot of the public do not really know what is happening. They see a flood on the news, and see that it is terrible and traumatic, but they do not know where to go to get the answers. We have all these strategic documents, which are very commendable, but it is getting action on the ground that is important."[22]

23. Siaradodd Garfield Williams, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Peirianneg yng Nghyngor Sir Ceredigion, yn agored am yr hyn yr oedd yn rhaid iddo ei ddweud wrth rai cymunedau yn ei ardal ef:

> "[…] We are building schemes at the moment, such as the one in Borth, and we are telling people that they have to be mindful that this may be the last time that they will be protected. We are asking them what they are going to do differently and how they are going to mitigate their losses. How are they going to think about the ownership of their property in future? For the people who face a future of retreat at some point—and there are quite a few of those, I would imagine—the truth is quite important for them to mitigate their losses."[23]

24. Darluniodd yn blaen yr anhawster sy'n codi wrth gyfleu'r bygythiad y mae rhai cymunedau arfordirol yn ei wynebu:

> "Part of our problem in facing the public is that there are people out there who believe that towns such as Aberaeron and Borth, after the next 100 years, will be defended in the same way as the Netherlands. I can say that that will not happen."[24]

25. Mae'r dystiolaeth a gawsom gan Lywodraeth Cymru'n dangos bod ei dull o gyfathrebu â chymunedau arfordirol yn canolbwyntio i raddau helaeth ar ymgynghoriadau ar gyfer cynlluniau penodol.[25] Er bod angen gwneud hyn, nid oes rhaid i gyfathrebu fod yn ymgynghorol neu'n berthnasol i gynlluniau penodol.

---

[22] Cofnod y trafodion 27 Ionawr 2010 p.142
[23] Ibid p.168
[24] Ibid p.194
[25] Cofnod y trafodion 10 Chwefror 2010 p.65 a 69

Credwn fod angen cyfathrebu uniongyrchol am oblygiadau cyffredinol symud tuag at ddull o weithredu sy'n fwy seiliedig ar risg, fel y gall cymunedau ddechrau ystyried eu dyfodol yn wyneb y newid hwn. Rydym yn cydnabod bod angen y ddau ddull o gyfathrebu, ond rydym yn pryderu mai un dull yn unig sy'n amlwg yng ngweithredoedd Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Mae angen mabwysiadu dull newydd o weithredu ar frys

26. Gwelodd yr Archwilydd Cyffredinol:

> "Yn sicr mae diffyg brys hyd yma i'w weld yn y *Rhaglen Dulliau Newydd.* Fodd bynnag, nid yw'r Asiantaeth na'r awdurdodau lleol y gwnaethom siarad â hwy o'r un farn â Llywodraeth y Cynulliad ynghylch y diffyg brys a dywedwyd wrthym eu bod yn gofidio am y newid araf hyd yma a'r amserlen ar gyfer newidiadau yn y dyfodol."[26]

Mae'r dystiolaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a thystion eraill yn cefnogi sylwadau'r Archwilydd Cyffredinol. Roedd gwahaniaeth amlwg yn yr ymdeimlad o frys sydd ganddynt.

27. Mae dealltwriaeth Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, a nodwyd gan Mr Mills, yn glir:

> "[…] current flood risk is significant, and, with climate change, that risk will increase significantly. It is important that we work at pace, developing this work as quickly as possible."[27]

28. Mae tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Sir Ceredigion yn awgrymu bod angen mwy o frys wrth ymateb i erydu arfordirol a llifogydd llanw, oherwydd y gall y canlyniadau fod yn drychinebus:

> "Efallai bod achos dros ddiffinio nodau ac amcanion yn fwy cyflym yng nghyswllt gorlifo ac erydu arfordirol gan y gall canlyniadau methu â gwneud hyn fod yn echrydus ac mae'r amserlen ar gyfer unigolion i gynllunio ac ymateb yn fwy hanfodol"[28]

29. Cafodd yr angen hwn i weithio ar frys ei bwysleisio ymhellach gan Gyfarwyddwr Peirianneg Cynorthwyol Ceredigion:

> "[…] the time for people to plan and think about retreating, or mitigating their losses, is upon them. The policy has already changed, in the sense

[26] Swyddfa Archwilio Cymru, Risgiau o Erydu Arfordirol a Llifogydd Llanw yng Nghymru, Hydref 2009 t.49
[27] Cofnod y trafodion 27 Ionawr 2010 p.9
[28] Cyngor Sir Ceredigion, Papur ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Ionawr 2010

> that there is no certainty that the people behind ongoing schemes can expect to receive funding in future."[29]

30. Dywedodd Llywodraeth Cymru nad oedd yn hunanfodlon ynglŷn â'r mater hwn, a'i bod yn cydnabod y gallwn fod yn wynebu darlun o'r dyfodol sy'n peri gofid. Yn llawn, dywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol Dyfodol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru:

> "There is no complacency about this. We are heavily engaged in the process of adaptation to climate change. The risks are formidable and they were analysed in some depth in the Foresight 'Future Flooding' report, which painted a potentially troubling view of the future. As the sea level rises and as we expect more extreme weather—storm surges, storms, and so on—the risk of a given defence of a given height being overtopped will gradually increase over time. That is a fact […]"[30]

31. Yn hwyrach yn yr un sesiwn dystiolaeth, daeth y gwahaniaeth yng nghanfyddiad Llywodraeth Cymru o frys yn glir:

> "[…] no-one is really envisaging any sort of realignment for the major settlements for the next 50 years or so. So, people can breathe easy—or they will be able to once they [shoreline management plans] are published. It is not a guarantee, but that is where it is heading."

32. Credwn fod rhaid i Lywodraeth Cymru weithio â mwy o frys. Clywsom gan swyddogion ar lawr gwlad bod raid iddynt ddechrau sôn eisoes am ddyfodol lle na fydd rhai cymunedau'n cael eu hamddiffyn. Po gynharaf y bydd y cyfathrebu'n dechrau a gwaith yn cael ei wneud, y gorau fydd y cyfle sydd gan gymunedau arfordirol i fod yn wydn ac i wynebu'r heriau a ddaw yn sgil y risgiau cynyddol.

33. Nid yw 50 mlynedd yn amser hir pan ystyrir buddsoddiadau mewn tir, eiddo a seilwaith. Yn yr achosion mwyaf eithafol, mae'n bosibl y gallai rhai cymunedau gael eu llifogi dan reolaeth o fewn degawdau. Rhaid i'r broses gyfathrebu ddechrau cyn gynted ag y bo modd, a rhaid i Lywodraeth Cymru godi blaenoriaeth ei hymateb i'r bygythiad hwn a pha mor gyflym y mae'n gweithredu i'w liniaru.

Mae'r dull presennol o asesu cynlluniau yn gymhleth, nid yw'n dryloyw a rhaid iddo ystyried dewisiadau amgen, sy'n seiliedig ar risg, yn gynharach yn y broses

34. Gwelodd yr Archwilydd Cyffredinol bod rhanddeiliad, fel awdurdodau lleol, yn gweld bod y meini prawf ar gyfer asesu a dethol, a ddefnyddir gan Lywodraeth

[29] Cofnod y trafodion, 27 Ionawr 2010 p.126
[30] Cofnod y trafodion 10 Chwefror 2010 p.14

Cymru i werthuso eu cynigion ar gyfer cymorth grant amddiffyn yr arfordir, yn "gymhleth iawn"[31] a bod diffyg tryloywder i'r broses.

35. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru'n ceisio gwneud y broses o asesu cynlluniau mor dryloyw ag sy'n bosibl. Rhaid iddi ystyried canfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol y gall symiau mawr o arian cyhoeddus gael eu peryglu gan yr oedi a achosir gan gymhlethdod y trefniadau presennol.[32]

36. Clywsom gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru bod ganddi fethodoleg ar gyfer asesu costau a fforddiadwyedd adeiladu amddiffynfeydd i ymdopi â rhai risgiau a rhagwelir[33]. Mae'r dull hwn o weithredu'n dal i ganolbwyntio ar gynlluniau amddiffynnol yn unig. Gofynnwyd i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru am fanylion ei methodoleg ar gyfer asesu cynlluniau sy'n seiliedig ar risg ac s'yn wahanol i'r cynlluniau amddiffynnol. Dywedodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wrthym nad oes ganddi fethodoleg ar gyfer hyn, a'i bod yn ystyried cynlluniau sy'n seiliedig ar risg pan benderfynir na ellir fforddio cynllun amddiffynnol:

> "We do not have a methodology for doing that, other than you come to that conclusion if you decide that you can no longer afford to defend a place."[34]

37. Er mwyn sicrhau bod cynllun rheoli erydu arfordirol a llifogydd llanw yn cynnig gwerth am arian, dylid ystyried cynlluniau sy'n seiliedig ar risg ochr yn ochr â chynigion am gynlluniau mwy traddodiadol sy'n seiliedig ar amddiffyn. Dylid ystyried dewsiadau amgen hyd yn oed pan fo dulliau traddodiadol yn fforddiadwy.

Ceir gormod o ganolbwyntio ar brosiectau cyfalaf ac mae angen mwy o waith i reoli'r cydbwysedd rhwng arian cyfalaf a refeniw ac adnoddau

38. Un o'r prif heriau wrth symud tuag at ddull o ymateb i erydu arfordirol a llifogydd llanw yw rheoli'r broses o symud adnoddau i ffwrdd o arian cyfalaf, tuag at gynlluniau sy'n seiliedig ar arian refeniw.

39. Mae'r modd presennol o ystyried ariannu yn parhau i ganolbwyntio ar gyfalaf a chynlluniau, fel y crybwyllwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Dywedodd Prif Beiriannydd Cynorthwyol Ceredigion wrthym ei fod yn pryderu bod y dull presennol o weithredu yn rhy seiliedig ar gynlluniau ac ariannu.[35] Dywedodd:

[31] Swyddfa Archwilio Cymru, Risgiau o Erydu Arfordirol a Llifogydd Llanw yng Nghymru, Hydref 2009 t.38
[32] Ibid
[33] Cofnod y trafodion 27 Ioawr 2010 c.91
[34] Ibid p.92
[35] Ibid p.168

> "The future is about revenue; if we are to respond more, mitigate more and consult more, we will do that in places where we are not going to build schemes."[36]

40. Gall y ffocws hwn ar arian cyfalaf beri anfantais; sef erydu cof ac arbenigedd y sefydliad. Dywedodd Mr Williams wrthym fod cyswllt rhwng lefelau staff a chynlluniau cyfalaf:

> "[…] the number of staff you have on coastal protection depends on how many schemes you get, because you justify it out of that capital spending."[37]

41. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod angen newid y cydbwysedd sydd rhwng arian cyfalaf a refeniw ac mae wedi ymrwymo i gyfeirio arian yn briodol i addasu ar gyfer y newid hwn:

> "It is true that the balance between capital and revenue will change. As we get the shoreline management plans and catchment flood management plans, we will orientate the funding so that it fits the actions that are coming out of those risk-based planning models"[38]

Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym hefyd ei bod yn cymryd camau i gael gwell dealltwriaeth o'r cydbwysedd rhwng gweithgareddau cyfalaf a refeniw[39].

42. Ni chafodd maint y broblem hon, na'r angen i weithredu, eu cyfleu gan Lywodraeth Cymru. Rhoddodd Andy Phillips o Swyddfa Archwilio Cymru gyd-destun defnyddiol i'r agwedd hon ar ein hymchwiliad:

> "During the research for the project, we did a quick survey of local authorities, and the revenue budget for each of the authorities was part of this survey. Authorities like Newport, which is an area with quite a high risk of tidal flooding, had a zero revenue budget, which does not acknowledge that there is a risk or a problem. Other authorities frequently have £20,000 to £50,000 a year to cover this entire problem. It is tiny compared with what they need to do, with climate change on the agenda."[40]

43. Rydym yn derbyn bod Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod hyn yn broblem sydd angen ei datrys. Fodd bynnag, mae maint y broblem, a amlygwyd gan waith Swyddfa Archwilio Cymru, yn frawychus. Mae angen i Lywodraeth Cymru weithredu ar frys i sicrhau bod awdurdodau lleol yn barod i ymateb i'r galw am

[36] Ibid p.189
[37] Ibid p.228
[38] Cofnod y trafodion 10 Chwefror 2010 c.41
[39] Ibid p.105
[40] Ibid p.107

arian refeniw. Efallai y bydd raid iddynt wneud hyn yn y dyfodol agos, er enghraifft yng nghyswllt yr adnoddau sydd eu hangen i roi cynlluniau rheoli traethlin ar waith ac wrth ymateb i'r Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009, cyfarwyddebau'r UE ac argymhellion adolygiad Pitt.

Mae gallu Llywodraeth Cymru i weithredu dull newydd wedi cael ei amau

44. Mae lefel yr adnoddau sydd gan Lywodraeth Cymru hefyd wedi cael ei amau, a gwelodd yr Archwilydd Cyffredinol nad oedd digon o gapasiti er mwyn datblygu'r Rhaglen Dulliau Newydd yn llwyddiannus.[41]

45. Dywedodd Prif Swyddog Gweithredol Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwastadeddau Gwynllŵg wrthym ei fod yn gweithio'n dda iawn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Cydnabu hefyd eu bod yn wynebu cyfyngiadau:

> "[…] I appreciate that the Assembly Government's resources are very constrained. It is a small team […]"[42].

Codwyd cwestiynau hefyd gan Brif Beiriannydd Cynorthwyol Ceredigion ynghylch lefel yr adnoddau sydd ar gael i swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r mater hwn.[43]

46. Bydd rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ganddi ddigon o adnoddau i ymateb i'r heriau y mae Cymru'n eu hwynebu gan y risgiau o erydu arfordirol a llifogydd llanw. Yn ogystal ag ystyried ei hadnoddau mewnol ei hun, dylai ystyried defnyddio arbenigedd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, ac asiantaethau eraill fel y byrddau draenio mewnol, i'r eithaf.

[41] Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Risgiau o Erydu Arfordirol a Llifogydd Llanw yng Nghymru*
[42] Cofnod y trafodion 27 Ionawr 2010 p.134
[43] Ibid c. 189

3. Mae'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru, gyda'i phartneriaid, ddwysáu ei dull o reoli erydu arfordirol a llifogydd llanw, ac ailfywiogi ei weithredoedd ag ymdeimlad o frys.

47. Clywsom gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Llywodraeth Cymru y bydd y Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, unwaith iddo ddod yn ddeddf, yn rhoi cyfle i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.

48. Rydym yn cytuno y gallai darpariaethau'r Deddf ar gyfer cyhoeddi strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli erydu arfordirol a llifogydd llanw fod yn gymorth wrth ddiffinio swyddogaethau a pherthnasau yn fwy clir, yn ogystal â darparu cynllun cyfathrebu cydlynol.

49. Mae problem semantig wedi bod wrth wraidd yr ymchwiliad hwn. Dechreuodd Llywodraeth Cymru'r Rhaglen Dulliau Newydd yn 2007. Yn fuan wedi hyn, lansiwyd adolygiad Pitt, ac mae llawer o'r hyn y rhagwelwyd y byddai'n cael eu gweithredu gan y Rhaglen Dulliau Newydd wedi cael eu hymgorffori yn yr ymateb ehangach i adroddiad Pitt, ynghyd â gweithgareddau eraill fel paratoi ar gyfer y Deddf, dosbarthu arian cydgyfeiriant a phrosiectau eraill.

50. Mae Llywodraeth Cymru'n dweud wrthym, i bob pwrpas, ei bod wedi rhoi'r gorau i'r Rhaglen Dulliau Newydd.[44] Fodd bynnag, nid oedd yr Archwilydd Cyffredinol, na'r tystion o Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ac awdurdodau lleol y cawsom dystiolaeth ganddynt, yn ymwybodol o'r penderfyniad hwn i ddod â'r rhaglen i ben.

51. Yn y pen draw, mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru'n disgwyl y bydd y strategaeth genedlaethol a ddaw o'r Ddeddf yn gweithredu fel cyfrwng cyffredinol ar gyfer rhoi dull newydd ar waith. Nid yw enw'r cyfrwng y mae Llywodraeth Cymru'n penderfynu dilyn ei amcanion polisi drwyddi yn bwysig i ni. Rydym yn bryderus am ei hanes o gyfathrebu ei bwriadau a llunio rhaglenni, oherwydd bod gan y ddau ohonynt oblygiadau ar gyfer yr economi, effeithlonrwydd, a pha mor effeithiol y mae'r polisïau'n cael eu gweithredu. Gobeithiwn y bydd Llywodraeth Cymru'n rheoli'r rhaglen yn fwy effeithiol a bod ei pholisïau'n cynnig atebion sy'n mynd i'r afael â risgiau'r dyfodol mewn modd cynaliadwy yn yr hirdymor. Gobeithiwn weld gwelliant yn y maes hwn pan gaiff y strategaeth genedlaethol ei rhoi ar waith.

52. Mae strategaeth gyffredinol sy'n gosod swyddogaethau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli a chyfathrebu risgiau o erydu arfordirol a llifogydd llanw yng

[44] Cofnod y trafodion 10 Chwefror 2010 p.54

Nghymru wedi bod ar goll yng Nghymru. Pa un ai fydd Llywodraeth Cymru'n penderfynu dal ati o dan faner y Rhaglen Dulliau Newydd ai peidio, mae angen strategaeth gyffredinol a dylid rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â hyn.

4. Argymhellion

Yn seiliedig ar ein hystyriaeth o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a'r ymchwiliad dilynol a gynhaliwyd gennym, rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol i Lywodraeth Cymru:

Argymhelliad 1 - Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n rhoi ymateb manwl i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar y risgiau o erydu arfordirol a llifogydd llanw yng Nghymru.

Argymhelliad 2 - Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n amlinellu'n glir yr hyn a olygir i randdeiliaid gan 'ddull sy'n seiliedig ar risg', a'r camau sy'n cael eu cymryd ganddi i gyflawni hyn.

Argymhelliad 3 - Wrth gyflawni argymhelliad 2, dylai Llywodraeth Cymru hefyd:

- wneud asesiad wedi'i gymhwyso o ba mor fforddiadwy y bydd gweithredu'r dull hwn sy'n seiliedig ar risg;
- sicrhau bod adnoddau digonol ar gael, yn cynnwys adnoddau ariannol a thechnegol a'r gallu i reoli prosiectau;
- yn ogystal ag ystyried ei hadnoddau mewnol ei hun, dylai ystyried gwneud y mwyaf o'r arbenigedd sydd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ac asiantaethau eraill fel y byrddau draenio mewnol; ac
- arwain mewn modd cyfeiriol sy'n sicrhau momentwm y newid a bod atebion hirdymor a chynaliadwy yn cael eu creu

Argymhelliad 4 - Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n datgan a yw'r rhaglen Dulliau Newydd yn dal i fodoli, a sut y mae'r amcanion a osodwyd o dan y rhaglen hon yn cyd-fynd â datblygiadau dilynol e.e. yr ymateb i adolygiad Pitt.

Argymhelliad 5 - Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n llunio rhaglen i roi gwybodaeth am oblygiadau cyffredinol y newid mewn dull o weithio, a'i rhoi ar waith fesul cam. Wrth wneud hyn gall dinasyddion a chymunedau sydd mewn perygl, ar hyn o bryd neu yn y dyfodol, ddechrau ystyried beth, mewn gwirionedd, fydd effaith symud i ffwrdd

o'r dull traddodiadol o weithio sy'n seiliedig ar amddiffyn. Dylai'r rhaglen hon gael ei rhoi ar waith ar draws Cymru, ac ni ddylai gael ei chyfyngu i gynlluniau penodol i atal erydu arfordirol a llifogydd llanw.

Argymhelliad 6 - Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n datblygu methodoleg dryloyw ar gyfer asesu a blaenoriaethu cynlluniau diogelu'r arfordir fel y gall ddinasyddion a chymunedau ddeall yn glir y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud. Dylai'r fethodoleg hon sicrhau bod dewisiadau sy'n seiliedig ar risg ac sy'n wahanol i gynlluniau amddiffyn traddodiadol yn cael eu hystyried ochr yn ochr â chynigion sy'n seiliedig ar ddulliau traddodiadol. Dylid ystyried dewisiadau amgen hyd yn oed pan fo dulliau traddodiadol yn fforddiadwy.

Argymhelliad 7 - Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n amlinellu ei hamserlen ar gyfer cyhoeddi strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli'r risgiau o lifogydd ac erydu arfordirol, o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, a'r camau a gymerwyd eisoes i baratoi ar gyfer cyhoeddi'r strategaeth hon.

Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn Papurau a thrawsgrifiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

10 Chwefror 2010

Clive Bates	Cyfarwyddwr Cyffredinol, Dyfodol Cynaliadwy, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Dr Peter Jones	Pennaeth, Rheoli'r Perygl o Lifogydd a'r Perygl i'r Arfordir, Llywodraeth Cynulliad Cymru

27 Ionawr 2010

Chris Mills	Cyfarwyddwr, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Alan Proctor	Rheolwr Gweithredol Rheoli Llifogydd a Risg Arfordirol, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
John Mosedale	Rheolwr Strategaeth a Pholisi, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Dean Jackson-Johns	Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwastadeddau Gwynllŵg
Geraint Edwards	Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Garfield Williams	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Peirianneg, Cyngor Sir Ceredigion

19 Tachwedd

Jeremy Colman	Archwilydd Cyffredinol Cymru
Andy Phillips	Arbenigwr Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru

Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r cyrff a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn Ymchwiliadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Enw/Corff	*Dogfen*	*Cyfeirnod*
Swyddfa Archwilio Cymru	Adroddiad ar Risgiau o Erydu Arfordirol a Llifogydd Llanw yng Nghymru	PAC(3) CETF 1
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	Tystiolaeth ysgrifenedig	PAC(3) CETF 2
Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwastadeddau Gwynllŵg	Tystiolaeth ysgrifenedig	PAC(3) CETF 3
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Tystiolaeth ysgrifenedig	PAC(3) CETF 4
Cyngor Sir Ceredigion	Tystiolaeth ysgrifenedig	PAC(3) CETF 5